| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **30 Medi 2014** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Y Cyng. David Smith - Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd/ Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Teitl:** | **Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 – Adroddiad Awdurdod Dirprwyedig** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 I'r Aelodau ystyried mabwysiadu deddfwriaeth newydd a dirprwyo pwerau ychwanegol i'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a ddeddfwyd yn ddiweddar ar ffurf Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn rhoi pwerau i Awdurdodau Lleol yng Nghymru wella rheoleiddio'r diwydiant cartrefi symudol fel bod amodau ar safleoedd cartrefi symudol yn well a hawliau trigolion yn cael eu hamddiffyn yn well.

2.2 Bydd y gyfraith newydd yn dod i rym ar 1 Hydref 2014.

2.3 Mae'r adroddiad hwn dim ond yn ceisio sicrhau mabwysiadu'r Ddeddf ar ran y Cyngor a'r awdurdod dirprwyedig cysylltiedig i'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Mae materion polisi a fydd yn mynd i'r afael â sut y mae'r pwerau i gael eu defnyddio yn ymarferol yn destun trafodaeth barhaus a bydd yn cael ei drin ar wahân.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir:-

- Bod Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn cael ei mabwysiadu ar ran y Cyngor.
- Bod y pwerau o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn cael eu dirprwyo i'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.
- Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei ddirprwyo yn awtomatig i'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd mewn perthynas ag unrhyw Reoliadau dilynol a wnaed o dan y Ddeddf.
- Bod awdurdod dirprwyedig i osod ffioedd a thaliadau yn cael ei ddarparu i'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (mae'r awdurdod cyffredinol hwn eisoes yn bodoli).

- Bod y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn cael ei awdurdodi i ddirprwyo'r pwerau i Swyddogion eraill sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac sy'n gymwys o fewn y Cyngor drwy ddarparu Awdurdodiadau perthnasol iddynt.

**4. Manylion am yr adroddiad.**

4.1 Efallai fod yr Aelodau'n ymwybodol bod cartrefi symudol yn cael eu defnyddio gan eu perchnogion gydol y flwyddyn fel eu cartref parhaol ar safle carafannau preswyl, a elwir yn aml yn 'barciau'. Mae'r rhain yn wahanol i'n safleoedd carafannau 'gwyliau'.

4.2 Mae tua 3,500 o gartrefi symudol ar 92 safle ledled Cymru, yn gartref i amcangyfrif o 5,000 o drigolion. Maent yn aml yn ddewis ymddeol poblogaidd i bobl hŷn. Yn Sir Ddinbych, dim ond 2 safle cartrefi symudol sydd. Y rhain yw Morfa Ddu, St James' Drive, Prestatyn a Stafford Park, Marsh Road, Y Rhyl (cyfanswm nifer yr unedau 39).

4.3 Mynegwyd pryderon cenedlaethol ynghylch rheolaeth wael rhai safleoedd yn y wlad; problemau a wynebir gan berchnogion tai wrth brynu a gwerthu cartrefi symudol, pryderon ynghylch contractau gyda gweithredwyr y safle, pryderon ynghylch ffioedd lleiniau, ac ati.

4.4 Prif nodweddion y ddeddf newydd yw y bydd yn ofynnol i berchnogion safleoedd wneud cais am drwydded gan eu hawdurdod lleol i weithredu safle. Bydd y drwydded yn para hyd at 5 mlynedd. Wrth wneud cais am y Drwydded bydd y perchennog y safle yn talu ffi a osodir yn briodol i'r Cyngor.

4.5 Bydd angen i reolwyr safle basio prawf 'unigolyn cymwys ac addas' hefyd cyn derbyn trwydded, gan y Cyngor.

4.6 Ni fydd perchnogion y safleoedd yn gallu atal gwerthu cartref symudol rhagor, ac felly bydd perchennog y cartref symudol yn gallu gwerthu eu cartref i bwy maent yn dymuno.

4.7 Bydd swyddogion o Wasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn gyfrifol am archwilio'r safleoedd i sicrhau bod safonau yn cael eu bodloni a byddant yn gallu cymryd camau megis cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig neu hysbysiadau cydymffurfio os nad yw'r amodau yn cael eu cynnal gan berchnogion y safle.

4.8 Gan fod hyn yn ddeddfwriaeth newydd, rhaid dilyn proses gyfreithiol weinyddol sy'n golygu mabwysiadu Deddf a rhoi awdurdod wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a all yn ei dro ddirprwyo'r pwerau hyn ac felly awdurdodi Swyddogion y Cyngor i'w galluogi i gyflawni darpariaethau a swyddogaethau'r ddeddfwriaeth.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at y blaenoriaethau corfforaethol o sicrhau mynediad at dai o ansawdd da a diogelu'r diamddiffyn o fewn ein cymunedau.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cyllidebol uniongyrchol yn gysylltiedig â mabwysiadu'r Ddeddf a rho awdurdod dirprwyedig sef diben yr adroddiad hwn. Gall materion polisi ar y defnydd o'r pwerau ac amlder achosion o ddigwydd fod â goblygiadau cyllidebol sy'n anodd eu rhagweld a'u mesur, ond mae cynllun codi tâl newydd a bydd yr holl gamau gweithredu yn cael eu cynnwys o fewn cyllideb y gwasanaeth.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

7.1 Mae effaith niweidiol o'r rheoliadau hyn ar gydraddoldeb yn annhebygol iawn. Ar ben hynny, mae'r ddeddfwriaeth a pholisi wedi eu datblygu gan Lywodraeth Cymru i liniaru'r risgiau a chanlyniadau unrhyw effeithiau andwyol, pe baent yn digwydd. Mae effaith gadarnhaol mewn perthynas â chydraddoldeb, y tu hwnt i amddiffyn hawliau dynol unigolyn, yn annhebygol hefyd.

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1 Ymgynghorwyd yn helaeth eisoes gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r broses a arweiniodd at ddeddfiad.

8.2 Mae swyddogion o Gwarchod y Cyhoedd hefyd wedi bod yn rhan o'r gweithgor cenedlaethol i gynllunio ar gyfer gweithredu'r Ddeddf newydd.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dylai unrhyw gostau ychwanegol fod wedi eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg yn yr adroddiad.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Materion risg i enw da posibl (e.e. beirniadaeth am fethu â chymryd camau) a nodir pe bai'r Cyngor yn methu mabwysiadu'r ddeddfwriaeth gan na fyddai mewn sefyllfa i ystyried defnyddio'r pwerau mewn amgylchiadau perthnasol. Efallai hefyd y bydd risg o hawliadau yn erbyn y Cyngor, er enghraifft, pe byddwn yn methu â mabwysiadu ac, felly, yn methu â chymryd camau.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ac Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Atodiad 1

| **PAPURAU CEFNDIR** | **LLEOLIAD** | **GWYBODAETH GWEFAN** |
|---|---|---|
| Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 | Gwefan Llywodraeth Cymru | http://wales.gov.uk/topics/housing-and-regeneration/legislation/mobile-homes-act/?skip=1&lang=cy |